

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

Cyfrifydd Rheoli

GRADDFA 14
CYFLOG: £42,403 – 43,421
Parhaol
Rhif y Swydd: 505664

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub mwyaf yn y DU sy'n gwasanaethu dros 1.5 miliwn o bobl ar draws 10 Awdurdod Unedol Cyfansoddol gan ymestyn o Ben-y-bont ar Ogwr i Drefynwy ac o Fae Caerdydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae cyfle cyffrous wedi codi o fewn yr adran Cyllid, Caffael ac Eiddo ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân. Rydym yn chwilio am Gyfrifydd Rheolaeth medrus i ymuno â'n tîm bywiog a chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu ein strategaeth ariannol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn aelod cymwys CCAB e.e. CIPFA, CIMA, ACCA neu gyfwerth a bod yn gyfrifol am fonitro ac adrodd ar y gyllideb refeniw flynyddol, h.y £96 miliwn ar gyfer 2024/25, ac yn cyfrannu at baratoi'r datganiad cyfrifon blynyddol. Mae arbenigedd ym meysydd cynllunio, dadansoddi a rheoli ariannol yn hanfodol wrth ddarparu gwybodaeth a chynngor i gefnogi gwneud penderfyniadau.

Bydd sgiliau cadarn o ran rheoli cyfrifeg a phobl yn hanfodol i gefnogi gwaith y tîm cyllid ac uwch arweinwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Yr oriau gwaith yn gyffredinol fydd 37 awr yr wythnos ac mae'r Gwasanaeth yn cynnig ystod o fuddion fel rhan o'i becyn cyflogaeth.

- Trefniadau gweithio hyblyg
- System hyblyg
- Campfa a chyfleusterau lles am ddim
- Parcio am ddim
- Polisiâu ystyriol o deuluoedd

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Gallai'r rôl hon yn gofyn am deithio rhwng safleoedd ledled De Cymru ac felly mae'n rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol, a bydd angen gwiriad trwydded yrru.

Gellir canfod mwy o fanylion mewn perthynas â'r swydd hon o fewn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ychwanegol, mae croeso i chi gysylltu â'r Rheolwr Llinell, Jen Sambell drwy law e-bost j-sambell@decymru-tan.gov.uk.

I wneud cais...

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu drwy ein gwefan: <https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-diweddera/>

Os oes angen fersiwn papur, mae croeso i chi anfon e-bost: personel@decymru-tan.gov.uk

Dylai ymgeiswyr mewnol ymgeisio drwy law eu porth CORE, gan ddewis 'Swyddi Gwag Cyfredol' o'r tab ar y chwith.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 04.11.2024 a 12:00pm.

Cynhelir y Cyfweiliadau/Proses Ddethol i'w cynnal ym mis Tachwedd.

Manylion Ychwanegol

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir penodiad.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn destun gwiriad DBS boddhaol

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ac mae system gweithio hyblyg ar waith.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni fydd ffurflenni cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym am annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.

